



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**10 Mai 2019**

**9:00 am to 1:00 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol:	Teresa Owen (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Charlotte Walton, Chris Stockport, Clare Budden, Cyng. Joan Lowe (JLo), Cyng. Liz Roberts, Ffion Johnstone, Jennie Lewis (JLe) (cyrraedd am 10:30 am), Jenny Williams (cyrraedd am 9:30am), Kevin Roberts, Marian Wyn Jones, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Mark Armstrong (yn bresennol ar ran Sacha Hackett), Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Dave Worrall, Lynda Colwell, Shan Lloyd Williams, Llinos Medi Huws, Judith Greenhalgh, Liz Hughes (yn bresennol ar ran Estelle Hitchon), Mark Wilkinson (MWil)
Ymddiheuriadau:	Bethan Jones, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Christine Jones, Cyng. Dafydd Meurig, Wendy Jones, Sacha Hackett, Estelle Hitchon, Cyng. Christine Jones, Lesley Singleton.
Hefyd yn bresennol:	Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd) ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

### **2 Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Hysbysodd y cadeirydd bod gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hawl anfon cynrychiolydd enwebedig i fod yn bresennol yn eu lle. Fodd bynnag, gofynnir i gynrychiolwyr gael eu briffio'n llawn am waith y Bwrdd. Pan fydd cynrychiolydd enwebedig yn mynychu dylid hysbysu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

Hefyd manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wnaeth fynychu'r cyfarfod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 2.5.2019 oedd yn ystyried y datblygiadau blwyddyn ar ôl

cyhoeddi Cymru lachach a chyhoeddi oedi wrth drosglwyddo gofal. Roedd y drafodaeth yn adlewyrchu'n dda ar y gwaith a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru ac anogwyd gan waith a chynnydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Hefyd dywedodd TO ei bod yn aelod o Fwrdd Trawsnewid Ymgynghorol Cenedlaethol, drwy wahoddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Andrew Goodall sy'n cynnwys aelodaeth traws sector ar draws Cymru. Rôl y Bwrdd Cynghori yw cefnogi cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid drwy ddarparu cyngor cadarn a her, gan sicrhau bod buddiannau rhanddeiliad yn cael eu hystyried mewn modd cytbwys, ar lefel rhaglen gyfan strategol.

Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

- Mae camau o gyfarfodydd Chwefror/Mawrth nawr wedi eu cwblhau.

Mae pob cam wedi'i gwblhau ers cyfarfod mis Ebrill:

- Eitem ar raglen Gwerth Cymdeithasol:
  1. Mae JW wedi son am y ffigyrau diweddaraf ar gyfer adroddiad Fforwm Gwerth Cymdeithasol.
  2. Roedd LC wedi anfon diweddariadau o'r cyfarfodydd i'r adroddiad.
  3. TO â cham gweithredu cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar y Grŵp Gwerth Cymdeithasol – Glyn Roberts.

Dywedodd BJE am e-bost a dderbyniwyd gan Ann Woods, Prif Swyddog, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, yn dilyn ei phresenoldeb yn y cyfarfod diwethaf o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ystyried enwebu 'Cefnogwr Gwerth Cymdeithasol' o fewn pob un o'r chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd, er mwyn hwyluso trafodaeth dwy ffordd rhwng partneriaid.

Dywedodd BJE bod yna swyddogion ym mhob awdurdod sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol fel rhan o'u rôl.

Dywedodd ME y byddai Gwynedd yn ffafrio'r cyswllt hwn drwy'r grŵp trydydd sector, Mantell Gwynedd.

Roedd NA hefyd yn ffafrio'r cyswllt hwn drwy grŵp compact Cyngor Sir y Fflint.

O ganlyniad i'r gweithdy yn y cyfarfod diwethaf, roedd BJE a TO yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar 31.5.19 fydd yn rhoi diweddariad ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a rhaglen waith y dyfodol

### *Camau Gweithredu*

- Cyflwyniad ar gyfer cyfarfod gyda'r Gweinidog 2.5.2019 i'w ddsbarthu i BPRh – RW
- Awdurdodau Lleol i anfon enw person 'Cefnogwr Gwerth Cymdeithasol' a enwir at BJE

## **3 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan ITJ ar waith

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac yn arbennig Cynnig Twf Gogledd Cymru.

Dyweddodd ITJ bod trefniadau llywodraethu a strwythur Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn datblygu gyda gwaith wedi'i ddirprwyo i is-fyrddau, gyda'r sector preifat yn bartneriaid pwysig yn y gwaith hwn.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gwneud cynnydd drwy sefydlu Bwrdd Darparu Busnes i gynrychioli'r sectorau preifat ar draws Gogledd Cymru. Un o swyddogaethau'r bwrdd hwn yw herio a llywio'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, drwy ddarparu system gadarn a rhoi llais i'r sector preifat.

### Y Weledigaeth Dwf

Mae'r Weledigaeth Dwf, dogfen lobio, yn un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru ac yn ysgogwr gweithgaredd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Weledigaeth Dwf yn cynnwys tua 7 neu 8 prosiect strategol i ddarparu'r strategaeth – Isadeiledd, Trafnidiaeth Integredig, Safleoedd Strategol ac Eiddo, Digidol a Thai.

Y nod y tu ôl i'r weledigaeth yw:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gogledd Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â bod heb waith ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a phrofi perfformiad economaidd a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru.

### Cynnig Twf

Mae'r Cynnig Twf ei hun yn rhan o'r Weledigaeth Dwf ar gyfer Gogledd Cymru ac mae elfennau o'r gwaith hwn wedi datblygu'n sylweddol gyda'r ddogfen Penawdau'r Telerau gyda Llywodraeth y DU a Chymru a symud ymlaen i waith achos busnes llawn ym mis Gorffennaf 2019 – Digidol, Tir ac Eiddo, Safleoedd

Cyflogaeth, Cyflogaeth ac Egni. Bydd gweddill y prosiectau i ddilyn yn ystod yr ail gam o fis Medi 2019.

Mae gweithio ar sefydlu ac ymgorffori gwerthoedd a diwylliant ar draws y rhanbarth hefyd yn cael ei ddatblygu drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae dogfen yn cael ei chreu i hysbysu unigolion am werthoedd a diwylliant i alluogi cyfranogiad cadarnhaol a chyfrannu at y drafodaeth gan fod unigolion yn delio gyda materion sy'n effeithio ar Ogledd Cymru i gyd e.e. isadeiledd, trafnidiaeth strategol.

Diolchodd TO i ITJ am ei ddiweddariad addysgiadol ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a nodwyd y cynnydd amlwg a welwyd ers y diweddariad diwethaf. Mae gwaith ar y gwerthoedd a diwylliant hefyd yn galonogol wrth i ni gyd ymdrechu am yr un canlyniad.

Gofynnodd MWJ i ITJ egluro'r amserlen ar gyfer y prosiectau hyn, a fyddai'r prosiectau'n cael eu hariannu'n llawn y flwyddyn nesaf ac a oedd yna amserlen dreigl.

Dywedodd ITJ fod gan y 6 phrosiect cyntaf amserlen a phroffil clir ar waith, a gweithredir dros gyfnod o 3 neu 4 blynedd. Bydd y gyllideb a chyllid ar gyfer y 6 phrosiect hyn ar waith unwaith y bydd y Penawdau Telerau wedi'u cymeradwyo gan y ddwy Lywodraeth.

Nid yw'r un o'r prosiectau y soniwyd amdanynt wedi eu rhestru mewn unrhyw drefn blaenoriaeth, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi camu i ffwrdd o flaenoriaethu prosiectau.

Roedd MWJ wedi'i galonogi i ddysgu am waith a wneir ar ddatblygu diwylliant gan fod hyn yn pwysleisio gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y sector a bydd pawb yn cael budd o'r gwaith hwn a'r gwersi a ddysgwyd.

Gofynnodd NA sut y darperir cysylltedd digidol ar draws y pedair rhaglen trawsnewid yng Ngogledd Cymru.

Cadarnhaodd ITJ bod trefniadau eisoes ar waith ar gyfer ymgysylltu ar draws y rhanbarth, gyda thîm digidol wedi sefydlu o dan arweiniad Sir Ddinbych yn edrych ar gysylltedd ffeibr yn y rhanbarth, fydd yn darparu cyfleoedd enfawr ar gyfer trawsnewid gwasanaethau a meysydd twf ar draws Gogledd Cymru.

Gofynnodd CB am y blaenoriaethau o ran Tai i wneud yn fawr o'r Fargen Dwf. Mae tai yn rhan o un elfen yn unig a nodwyd pwysigrwydd cysylltu ag elfennau eraill i lwyddo – hamdden, cludiant, swyddi arbenigol, cysylltiadau ag addysg.

Cytunodd ITJ a dywedodd bod y cydbwysedd rhwng hybu'r economi sylfaen yn hanfodol, cynnwys partneriaid priodol a'r economi gwerth uchel. Mae gan Gymdeithasau Tai gyfraniad pwysig i gyfrannu at yr agenda ataliol.

Roedd MWim yn nodi pwysigrwydd peidio gweld y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol fel un sy'n darparu swyddi yn unig, ond hefyd yn darparu gofal i alluogi pobl eraill i weithio. Un angen penodol yn y sector fydd symud tuag at gofrestrriad gorfodol holl weithwyr gofal cartref.

Dywedodd ITJ am raglenni hyfforddiant i ddiwallu anghenion y rhanbarth yn cael eu hwyluso gan waith a wneir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Gofynnodd TO a fyddai aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu cael copi o'r Weledigaeth Dwf/Fargen Dwf. Roedd TO hefyd yn nodi bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn hanfodol i ffyniant y rhanbarth; gyda'r holl brosiectau yn ganolog i'r agenda ataliol.

#### *Camau Gweithredu*

- ITJ i ddarparu gwybodaeth y Tim Digidol i BJE
- ITJ i anfon dolen gwefan y Weledigaeth Dwf/Fargen Dwf i'w dosbarthu.
- ITJ i anfon dogfen ar werthoedd/ diwylliant ar ôl cwblhau.

## **4 Cymru Iachach**

### Amserlenni adrodd

Roedd y cadeirydd eto yn pwysleisio pwysigrwydd bod pob rhaglen trawsnewid yn cadw at yr amserlenni adrodd penodol. Mae'r cais nesaf i fod ar 15.07.2019 ac mae'n ofynnol i bartneriaid sicrhau bod ceisiadau yn cael eu prosesu a'u hanfon ar amser, yn ôl amserlenni gan y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol a chadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglenni trawsnewid sy'n ofynnol o fewn 2 i 3 diwrnod, sy'n cyflwyno amserlenni tynn iawn.

### Law yn Llaw at lechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan MWJ ar Law yn Llaw at lechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru yn absenoldeb Lesley Singleton.

Y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Y Tîm Prosiect llawn bellach wedi'i sefydlu gyda thri Rheolwr Busnes newydd wedi eu penodi.
- Mae'r Fframwaith Comisiynu wedi'i sefydlu a chytunwyd ar y partner gwerthuso.
- Bydd yna ddiweddariad pellach ar ôl y bwrdd Law yn Llaw at lechyd Meddwl y prynhawn yma.

Pwysleisiodd MWil eto bwysigrwydd dull cyson ar gyfer gwerthuso ar draws holl raglen trawsnewid, sydd eisoes wedi eu cymryd i ystyriaeth a dywedodd ChS bod

CCTH/Trawsnewid Cymunedol a'r Trawsnewid Plant wedi cwblhau tendr gwerthuso ar y cyd, yn gweithio ar yr un maen prawf â Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Rhaglenni Trawsnewid Anableddau Dysgu.

Roedd yr holl bartneriaid yn llwyr ymwybodol o amodau grant Llywodraeth Cymru a heriau a wynebir gan y pedair rhaglen trawsnewid e.e. ceisiadau chwarterol yn ddyledus ynghyd â thystiolaeth o wariant, ceisiadau a wnaed ar dalu treuliau yn unig (e.e. arian sydd wedi'i glirio drwy'r banc) ac adrodd am weithgaredd.

Gofynnodd y Cyng LR a oedd cydweithwyr Tai yn aelodau o'r Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Gofynnodd LH a oedd WAST wedi eu cynrychioli ar y Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a thrafodir gyda Claire Bevan.

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan NA a Kathryn Whitfield ar y rhaglen trawsnewid Anableddau Dysgu.

Roedd tîm llawn o staff bellach wedi eu penodi ar gyfer y tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu.

Mae dyddiad lansio rhaglen wedi'i drefnu ar gyfer 14.06.2019 yn Venue Cymru. Bydd trafodaethau'n cynnwys pa mor llwyddiannus fydd y rhaglen yn cael ei mesur a rhannu arfer orau ar draws y rhanbarth.

Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chefnogaeth Ddwys i Blant a Phobl Ifanc

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan NS, oedd yn nodi mai Gogledd Cymru yw'r unig ranbarth gyda rhaglen ar Blant a Phobl Ifanc fel rhan o'r rhaglen trawsnewid, sydd wedi'i gysylltu'n glir i flaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a nodwyd drwy'r asesiad o anghenion y boblogaeth.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Plant yn y camau cynnar, yn dilyn cymeradwyaeth ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019. Roedd y gwaith Trawsnewid wedi datblygu, mewn perygl, gyda phenodiad diweddar y Rheolwr Rhaglen.

Cytunwyd y byddai'r rhaglen yn cael ei darparu drwy'r Grŵp Trawsnewid Plant presennol, a ailsefydlwyd i gynnwys partneriaid yr awdurdod nawr o dan y teitl Blaenoriaethau Partneriaeth Plant. Mae'r grŵp hwn yn cael ei gadeirio ar y cyd gan NS (agenda partneriaeth) a Bethan Jones (agenda iechyd). Roedd y cylch gorchwyl wedi'i adolygu a'i ddiweddarau, gyda'r gefnogaeth isadeiledd a disgwylir recriwtio rhanbarthol ar gyfer y tri Swyddog Prosiect i'w ystyried.

Roedd SLW yn nodi ei bod yn ymddangos nad yw tai yn cael eu cynrychioli ar y byrddau rhaglen trawsnewid. Cadarnhaodd NS bod y materion hyn eisoes wedi eu codi ac yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd.

Gofynnodd JLe sut oedd y bobl eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Cadarnhaodd NS bod y cynllun gweithredu ar sail ardal. Mae gan gyfarwyddwyr a'r trydydd sector rôl i chwarae o ran ymgysylltu â grwpiau presennol a chynrychioli plant gyda'r gwaith a ddarperir yn unigryw i bob ardal.

Roedd y Cyng. LR yn nodi'r angen i gynnwys gwasanaethau hamdden fel rhan o'r rhaglenni trawsnewid.

Dywedodd NS bod Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn cynnwys ymarferwyr arbenigol iawn. Roedd yna gyflawniadau penodol a fyddai'n cynnwys hamdden.

Rhaglen Trawsnewid Gofal yn Nes at y Cartref (Gwasanaethau Cymunedol)

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan ChS ar y Bwrdd Gofal yn Nes at y Cartref sydd hefyd yn ystod y camau cynnar, yn dilyn cymeradwyaeth cyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2019. Roedd y gwaith trawsnewid wedi datblygu gyda phenodiad diweddar y Rheolwr Rhaglen.

Cytunwyd y darperir y rhaglen drwy Fyrddau Gwasanaeth Integredig Ardal i gipio'r angen lleol, a bydd y Bwrdd Trawsnewid Gofal yn Nes at y Cartref yn darparu cyfeiriad strategol i sicrhau cynlluniau cadarn ar gyfer cynaliadwyedd ar ddiwedd y rhaglen.

Roedd aelodaeth y bwrdd wedi'i herio i sicrhau bod y bwrdd yn cynnwys unigolion priodol i fynd i'r afael â materion a monitro cynnydd.

Cytunwyd i dendro ar gyfer gwerthuso trawsnewid Gofal yn Nes at y Cartref fel rhan o dendr ar y cyd gyda gwerthusiad y cais Trawsnewid Plant, a ddsberthir yn fuan.

Gofynnodd JLe a oedd y Bwrdd Gofal yn Nes at y Cartref yn cynnwys cynrychiolwyr dinesydd a gofalwr.

Cadarnhaodd CS nad oedd cynrychiolwyr dinasyddion a gofalwyr yn rhan o'r bwrdd ar hyn o bryd, ond credir bod disgwyliad a byddai'r Panel Dinasyddion yn cynorthwyo i ychwanegu'r rôl hon.

## **5 Cronfa Gofal Integredig**

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan NA ar Adroddiad Chwarter 4 Cronfa Gofal Integredig 2018/19 a'r Cynllun Buddsoddiad Refeniw Drafft 2019/20.

#### Chwarter 4 2018/19 Cronfa Gofal Integredig

Adroddwyd ar wariant llawn ar draws pob thema gan gynnwys Cyfalaf, gyda rhai addasiadau i ddyraniadau cyffredinol ar draws themâu o fewn Refeniw a Dementia. Yn y pen draw, roedd y dyraniadau yn gysylltiedig â'r dyraniadau cychwynnol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynllun Cyfalaf Cronfa Gofal Integredig - derbyniwyd Rhaglen tair blynedd wedi'i ailfformatio gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys adroddiad arddull dangosfwrdd newydd. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau a'i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru erbyn 31.05.19.

#### Cynllun Buddsoddiad Refeniw Drafft 2019/20

Roedd y ddogfen drafft Cynllun Buddsoddiad Refeniw Cronfa Gofal Integredig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer dyddiad cau diwedd Mawrth:

- Mae yna symiau heb eu dyrannu ym mhob un o'r ffrydiau arian ar hyn o bryd e.e.

Dementia, Ymyrraeth Gynnar, AD Gofal yn Nes at y Cartref a Gofalwyr ac OP, a ddyrennir i brosiectau ar gyfer y fersiwn derfynol.

- Mae'r dangosfwrdd (crynodeb o'r cynllun) yn cynnwys themâu a disgrifiadau rhanbarthol, yn nodi deilliannau y cytunwyd arnynt.

Mae yna oddeutu 98 prosiect yn y cynllun yn dangos darpariaeth leol o ddeilliannau rhanbarthol.

- Oherwydd cymhlethdod templed Cynllun Llywodraeth Cymru, bu'n anodd cwblhau prosiectau.

Fodd bynnag, roedd gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar y ffordd orau ymlaen.

- Roedd aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r cynllun buddsoddiad refeniw drafft.

Gofynnodd DW faint o'r cyllid Cronfa Gofal Integredig sy'n cael ei ddyrannu i sefydliadau Gwerth Cymdeithasol. Gan gyfeirio at y cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru byddai 20% o'r cyllid trawsnewid yn cael ei roi i'r SVF.

Cadarnhaodd NA bod holl bartneriaid ar draws y rhanbarth yn ymwybodol o'r gofyniad hwn.

Pwysleisiodd NS bod pob awdurdod lleol eisoes yn ymgysylltu â gwerth cymdeithasol fel rhan o'u rôl, oedd o bosibl wedi'i oruchwylio gan Lywodraeth Cymru.



Dyweddodd MWim bod sefydliadau sector preifat hefyd yn cynnig gwerth cymdeithasol. Gall unrhyw sefydliad gynnig gwerth cymdeithasol, yr hyn sy'n bwysig yw gwneud gwahaniaeth o fewn y rhanbarth.

#### *Camau Gweithredu*

- Adroddiad llawn Cronfa Gofal Integredig i LG ym mis Mai, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mehefin RW

### **6 Y wybodaeth ddiweddaraf ar yr ymateb rhanbarthol ar yr Ymgynghoriad ar y cod ymarfer ar ddarparu Gwasanaeth Awtistiaeth.**

Mae'r eitem hon ar y rhaglen wedi'i gohirio tan y cyfarfod ym mis Mehefin.

#### *Camau Gweithredu*

- Rhaglen Mehefin - RW

### **7 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru**

Atgoffodd BJE y byddai angen adborth aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y templed Adroddiad Blynyddol gynted â phosibl, y dyddiad cau oedd 3 Mai 2019. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddrafftio nawr er mwyn ei gwblhau, ei gymeradwyo a'i gyfieithu yn barod i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mehefin.

#### Ffurio proses ar gyfer Is-Gadeirydd

Bydd papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mehefin yn amlinellu'r broses ar gyfer dethol Is-gadeirydd.

#### *Camau Gweithredu*

- Adborth ar gyfer yr adroddiad blynyddol i'w anfon at RW gynted â phosibl.
- Ffurio proses are gyfer Is-Gadeirydd ar raglen Mehefin - RW

### **8 Er gwybodaeth:**

NS – Mesur y Mynydd yn ceisio adolygu straeon gan y sawl â phrofiadau bywyd.

Roedd MWim eto yn mynegi pryder am ansefydlogrwydd y sector cartrefi nysio oherwydd diffyg gosod ffioedd gan y Bwrdd Iechyd.

Cadarnhaodd TO y tynnwyd sylw uwch gydweithwyr y Bwrdd Iechyd at hyn ond nad oedd unrhyw beth pellach i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

Gofynnodd JLe a oeddem yn agosach at benodi cynrychiolwyr dinesydd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cadarnhaodd BJE mai'r dyddiad cau oedd diwedd Mehefin.

Gofynnodd KR am y Rhaglen Adre o'r Ysbyty gan Lywodraeth Cymru, ar wella llif cleifion gan alluogi cleifion i ddychwelyd gartref i amgylchedd diogel.

Cadarnhaodd LC bod y prosiect hwn oedd yn cael ei ariannu drwy Gofal a Thrwsio, gan ddarparu addasiadau ar gyfer rhyddhau, wedi profi'n llwyddiannus yng Ngogledd Cymru ac roedd wedi'i ymestyn tan fis Medi 2019.